**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

At: gweler rhestr o'r derbynwyr yn Atodiad 2

29 Ebrill 2022

Annwyl gyfaill

**Cais am dystiolaeth ysgrifenedig: Cynllun Llywodraeth Cymru i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros ar 26 Ebrill 2022, ac ar ôl hynny gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ar y cynllun yn y Cyfarfod Llawn.

Mae effaith yr ôl-groniad o amseroedd aros yn flaenoriaeth allweddol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a byddem yn croesawu eich barn ar y materion a nodir yn Atodiad 1.

Byddai'n ddefnyddiol derbyn eich ymateb erbyn **dydd Gwener 10 Mehefin 2022**.

Yn gywir

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad 1 Cais am dystiolaeth ysgrifenedig: Cynllun Llywodraeth Cymru i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros

Er mwyn llywio ystyriaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros, byddem yn croesawu eich barn ar y materion a restrir isod. Cadwch eich atebion yn gryno lle bo hynny'n bosibl os gwelwch yn dda. Nid oes angen i chi ymateb i'r holl faterion oni bai eich bod yn dymuno gwneud hynny.

Byddai'n ddefnyddiol derbyn eich ymateb erbyn dydd Gwener 10 Mehefin 2022.

### Safbwyntiau cyffredinol

1. A fydd y cynllun yn ddigonol i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau mewn gofal arferol sydd wedi cronni yn ystod y pandemig, a lleihau amseroedd aros hir.

2. A yw'r cynllun yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng mynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol, a chreu system iechyd a gofal cymdeithasol fwy gwydn a chynaliadwy ar gyfer y tymor hir?

### Bodloni anghenion pobl

3. A yw'r cynllun yn canolbwyntio'n digonol ar y canlynol:

    a. Sicrhau bod pobl ag anghenion iechyd yn cyflwyno eu hunain;

    b. Cefnogi pobl sy'n aros am gyfnod hir am driniaeth, rheoli eu disgwyliadau, a'u paratoi ar gyfer cael y gofal y maent yn aros amdano, gan gynnwys hunanreoli â chymorth;

    c. Diwallu anghenion y rhai sydd â'r anghenion clinigol mwyaf, a'r rhai sydd wedi bod yn aros am amser hir;

    d. Gwella canlyniadau cleifion a'u profiad o wasanaethau'r GIG?

### Arweinyddiaeth a chyfeiriad cenedlaethol

4. A yw'r cynllun yn darparu arweinyddiaeth ddigonol a chyfeiriad cenedlaethol i ysgogi cydymdrech, cydweithio a rhannu arloesedd ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan (gan gynnwys meysydd iechyd meddwl, gofal sylfaenol a gofal cymunedol)?

5. A yw'r cynllun yn rhoi digon o eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ysgogi trawsnewid, yn enwedig wrth ddatblygu gwasanaethau triniaeth a diagnostig newydd a/neu ranbarthol a moderneiddio gwasanaethau gofal a gynlluniwyd?

Targedau ac amserlenni

6. A yw'r targedau a'r amserlenni yn y cynllun yn ddigon manwl, mesuradwy, realistig a chyraeddadwy?

7. A yw'n ddigon clir pa arbenigeddau fydd yn cael eu blaenoriaethu/cynnwys yn y targedau?

8. A ydych yn rhagweld unrhyw amrywiad ar draws byrddau iechyd o ran cyflawni'r targedau fesul arbenigedd?

Adnoddau ariannol

9. A oes digon o gyllid refeniw a chyfalaf ar gael i gyflawni'r cynllun, gan gynnwys, buddsoddi, lle bo angen, mewn seilwaith ac ystadau a'u hehangu er mwyn sicrhau bod capasiti'r gwasanaethau yn bodloni'r galw?

10. A yw'r cynllun yn ddigon clir ynglŷn â sut y dylai cyllid ychwanegol ar gyfer trawsnewid gofal a gynlluniwyd gael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, a sut y caiff defnydd ac effaith y cyllid eu holrhain a sut yr adroddir ar hynny?

Gweithlu

11. A yw'r cynllun yn mynd i'r afael yn ddigonol â phwysau ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cadw, recriwtio, a chefnogi staff i weithio'n hyblyg, meithrin eu sgiliau a gwella o drawma'r pandemig?

Offer digidol a data

12. A oes digon o eglurder ynglŷn â sut y bydd offer a data digidol yn cael eu datblygu a'u defnyddio i ysgogi darpariaeth gwasanaethau a rheoli amseroedd aros yn fwy effeithlon?

## Sut i rannu eich barn

Anfonwch eich ymateb drwy e-bost at Seneddlechyd@senedd.cymru erbyn **dydd Gwener 10 Mehefin 2022**.

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol.

Gweler y canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen polisi'r Senedd ar ddatgelu gwybodaeth cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

## Atodiad 2 Rhestr o dderbynwyr

- Adferiad Recovery
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Age Cymru
- Archwilio Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Barnardo's Cymru
- Bowel Cancer UK
- Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr
- Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys
- Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
- Coleg Brenhinol y Meddygon
- Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu Cymru
- Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
- Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
- Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion
- Conffederasiwn GIG Cymru
- Crohn's & Colitis UK
- Cynghrair Canser Cymru
- Cynghrair Cynhalwyr Cymru
- Cymdeithas Alzheimer Cymru
- Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
- Cymdeithas Feddygol Prydain - Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
- Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (Cymru)
- Cymdeithas Orthopedig Prydain
- Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
- Cymorth Canser Macmillan
- Cymru vs Arthritis

- Endometriosis UK
- Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- GMB
- Gofal Canser Tenovus
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Endometriosis
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Mind Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Pancreatic Cancer UK
- RNIB Cymru
- Sefydliad Prydeinig y Galon
- Sefydliad Ysgyfaint Prydain ac Asthma UK
- Target Ovarian Cancer
- Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
- Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol
- Uno'r Undeb
- Unsain
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Y Groes Goch Brydeinig
- Y Gymdeithas Fferylliaeth Genedlaethol
- Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yng Nghymru
- Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) Cymru
- Y Gymdeithas Strôc